Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Rhagfyr 2008

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng. Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi. Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith. Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu. Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

Amser Cynhyrchiol

Darganfu Adroddiad Cynhyrchiant Byd-eang 2008, a gyhoeddwyd o'r newydd gan Proudfoot Consulting, fod rheolwyr yn y DU yn treulio 38.5% o'u hamser ar dasgau gweinyddol ar gyfartaledd, o'i gymharu â chyfradd ddelfrydol o 23% yn ôl yr amcangyfrif. Yn ôl Proudfoot, golyga hyn fod swm 'gorlwytho gweinyddol' Prydain yr uchaf ond un o'r 12 gwlad a arolygwyd.

Sut mae'ch wythnos waith yn cymharu â'r ffigyrau hyn? Sut ydych chi'n mesur ac yn adolygu faint o amser rydych chi'n ei dreulio ar weinyddiaeth o'i chymharu â goruchwyliaeth, cyfarwyddyd, mentora staff, a thasgau eraill sy'n gallu effeithio'n uniongyrchol ar gynhyrchiant? A ydych chi'n hyderus eich bod yn rhannu'ch amser yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol?

Teyrngarwch Amodol

Mae'r Prif Weinidog wedi galw am roi terfyn ar y diwylliant o roi bonysau mawr yn y byd bancio a chyllid. Fodd bynnag, er gwaetha'r argyfwng economaidd presennol, mae llawer o fusnesau gwasanaethau ariannol yn gyndyn o roi'r gorau i'r ffordd hon o wobrwyo staff oherwydd eu bod yn pryderu y bydd eu gweithwyr gorau yn mynd at gystadleuwyr.

Pa mor bwysig yw bonysau yn eich sefydliad chi? Pe baech yn cwtogi ar fonysau, neu'n rhoi'r gorau iddyn nhw oherwydd yr argyfwng credyd, pa gamau eraill allech chi eu cymryd i gadw'ch staff dawnus yn deyrngar?

Ffrindiau mewn Angen

Mae rhifyn cyfredol y cylchgrawn Management Today yn dwyn sylw at bwysigrwydd cyfeillion busnes da i ddibynnu arnyn nhw yn ystod cyfnod o galedi ariannol a chynnwrf yn y farchnad.

A ydych chi'n mynd ati'n benodol ac yn gyson i greu ac i feithrin perthnasoedd da â'ch cwsmeriaid, eich cyflenwyr, a chysylltiadau eraill fel rhan o'ch rôl fel rheolwr? Sut ydych chi'n cynnal y cysylltiadau hyn? A ydych chi'n teimlo bod nifer ac ansawdd perthnasoedd eich cwmni'n ddigon da i'ch helpu yn ystod yr anawsterau presennol yn y farchnad?

Yn bresennol, ond er budd pwy?

Dywedir bod nifer y bobl sy'n mynnu aros yn eu gwaith, hyd yn oed pan nad ydyn nhw'n teimlo'n dda, ar gynnydd yn sgil y pryderon presennol ynglŷn â cholli swyddi. Fodd bynnag, mae sawl astudiaeth wedi dangos y gall hyn fod yn fwy niweidiol i gynhyrchiant na bod gweithwyr yn absennol, oherwydd bod eu perfformiad yn gwaethygu, ac maen nhw'n cynyddu'r risg o ledu germau ymhlith cydweithwyr.

Pa mor dda ydych chi am sylwi bod aelod o'ch tîm yn sâl ond yn parhau i weithio? A ydych chi'n eu hannog i fynd adref i gael triniaeth neu i wella, neu a ydych chi'n caniatáu iddyn nhw ddal ati, gan obeithio achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosib?

Cynllunio ar gyfer y Gwaethaf

Dywed yr awdur busnes Richard Templar fod cael cynlluniau wrth gefn yn offeryn rheolaeth hanfodol, ac y bydd rheolwr craff bob amser yn ceisio rhagweld y senario waethaf bosibl, gan fod â chynllun penodol i ymdopi â hi.

Yn sgil y dirywiad economaidd presennol, a ydych chi wedi ystyried y gwahanol amgylchiadau y gall eich busnes eu hwynebu? A ydych chi wedi cynllunio beth fyddech chi'n ei wneud mewn ymateb i bob sefyllfa? Ar ba ffurf ydych chi wedi cadw'r cynllun hwn, a chyda phwy ydych chi wedi'i drafod? Pa mor hyderus ydych chi mai'ch ymateb chi fyddai'r un iawn, neu y byddai'n ddigon i alluogi'r cwmni i oroesi pe bai'r gwaethaf yn digwydd?

Rhywbeth Da i'w Ddarllen